

Cyngor Dinas Casnewydd Cynnig Ad-drefnu Ysgol Adroddiad Gwrthwynebu

**Cynnig i gau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn
Ysgol Uwchradd Llanwern yn weithredol o fis Ionawr 2018**

Cefndir

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, Gorffennaf 2013 ac mae'n cynnwys crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn erbyn y cynnig statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hyn.

Cynnig Statudol

Cyhoeddodd y Cyngor gynnis statudol ar 6 Tachwedd 2017 tan 4 Rhagfyr 2017 i gau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanwern yn barhaol. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion ac ymateb y Cyngor ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Mae'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn wag ar hyn o bryd, gyda phob un o'r dysgwyr naill ai'n symud i ddarpariaethau grwpiau bach amgen mewn ysgolion cynnal neu grwpiau anogaeth bach sy'n fwy addas i'w hanghenion penodol. Bydd y staff hyfforddedig a gyflogir mewn ysgolion cynnal a'r defnydd cynyddol o wasanaethau allgymorth yn galluogi ysgolion i wneud y defnydd gorau o adnoddau ar lefel leol er mwyn cefnogi disgyblion drwy'r ddarpariaeth grwpiau bach, ymyriadau a chymorth.

Cynigiwyd gweithredu'r cynnig o 1 Ionawr 2018.

Cyhoeddwyd y cynnig statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chafodd copïau eu harddangos ym mhob prif fynedfa yn Ysgol Uwchradd Llanwern. Cafodd yr hysbyseb hefyd ei rhannu â phob rhanddeiliad fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol, gan gynnwys disgyblion, staff a rhieni / gofalwyr Ysgol Uwchradd Llanwern a rhieni disgyblion sy'n mynychu'r pum ysgol clwstwr ar hyn o bryd: Ysgol Gynradd Alway, Ysgol Gynradd Eveswell, Ysgol Gynradd Llanmartin, Ysgol Gynradd Milton ac Ysgol Gynradd Ringland.

Gwrthwynebiadau i'r Cynnig ac ymatebion yr ALI

Cyflwynwyd un gwrthwynebiad yn ystod y cam hysbysu statudol, gan aelod o staff a oedd wedi'i gyflogi i weithio yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanwern. Gwnaed y gwrthwynebiad ar y sail ganlynol:

Ail-sefydlu darpariaeth

O dan yr adran hon, cyfeiriodd yr unigolyn at y newidiadau a wnaed yn flaenorol i'r ddarpariaeth yn 2014, y staff a gyflogwyd yn y ganolfan a'r hyfforddiant a ddarparwyd iddynt er mwyn diwallu anghenion y disgyblion.

Sefyllfa Bresennol yng Nghanolan Adnoddau Dysgu Llanwern

O dan yr adran hon, amlinellodd yr unigolyn y trefniadau gweithredol a oedd ar waith drwy gydol blwyddyn academaidd 2016/17, gan gynnwys creu 'Grŵp Annog Rhieni' a sefydlu ffyrdd newydd o weithio a mentrau newydd i gefnogi pobl ifanc heriol.

Ymateb yr ALI: Mae'r sylwadau hyn yn ffeithiol gywir. Mae'r Cyngor yn cydnabod llwyddiant blaenorol y ddarpariaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol, penderfynodd Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd i dynnu'r cyllid a oedd yn gysylltiedig â darpariaeth Canolfan Adnoddau Dysgu Ysgol Uwchradd Llanwern, yn ôl fel rhan o'r penderfyniadau ynghylch y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

Roedd y penderfyniad hwn yn cefnogi'r strategaeth y gellid diwallu anghenion disgyblion yn well mewn lleoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o fewn ysgolion cynnal prif ffrwd, a lleihau'r costau gweithredol sylweddol sy'n gysylltiedig â chynnal y ddarpariaeth bresennol.

Mae'r Ganolfan Adnoddau Dysgu wedi bod yn wag ers dechrau blwyddyn academaidd 2017/18, hyd nes y gwneir penderfyniad i'w chau'n barhaol.

Rhai Pryderon Ynghylch y Cynnig i Gau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu

O dan yr adran hon, amlinellodd yr unigolyn y rhesymau dros osod disgybl mewn Canolfan Adnoddau Dysgu yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng y nifer o leoedd Cyfnod Allweddol 2 mewn Canolfan Adnoddau Dysgu a lleoedd Cyfnod Allweddol 3 mewn Canolfan Adnoddau Dysgu ledled ysgolion cynradd ac uwchradd Casnewydd.

Aeth yr adran hon ymlaen i roi rhai manylion penodol am y disgyblion y gofynnwyd iddynt gyfrannu at lais y dysgwr, ac amlinellu'r anawsterau sy'n wynebu'r staff a oedd yn gweithio yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu gynt, ynghyd â'u swyddi presennol yn yr ysgol.

Ymateb yr ALL: Fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn yr adroddiad ymgynghori, cydnabyddir bod angen cymorth arbenigol ar rai o'r disgyblion ond mae'r ALL o'r farn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy ddarpariaeth grwpiau bach o fewn ysgol gynnal. Bydd hyn yn golygu y gellir rhoi trefniadau integreiddio estynedig ar waith ac y gellir cyflwyno llwybr dysgu mwy personol. Bydd lefel uchel o gymorth ar gael i'r bobl ifanc yn eu lleoliad prif ffrwd gan gynnwys mwy o gyfleoedd i fanteisio ar ddewislen o ymyriadau a chyfleoedd i ryngweithio â modelau rôl cadarnhaol.

Yn y dyfodol, bydd y pwyslais ar ddarparu amgylchedd o anogaeth er mwyn diwallu anghenion unigol ym mhob rhan o'r ysgol. Mae'r ALL wedi darparu hyfforddiant helaeth i staff prif ffrwd a rhoddwyd trefniadau cydweithredu ar waith ledled y Ddinas yn cynnwys aelodau o staff sy'n gweithredu grwpiau bach a Chanolfannau Cynhwysiant mewn ysgolion prif ffrwd.

Ymateb yr Ysgol: O ran rhai o'r sylwadau penodol a amlinellir yn yr adran hon, mae'r Pennaeth wedi cadarnhau y ceisiwyd y cyngor priodol gan y Partner Busnes Adnoddau Dynol a enwebwyd yng Nghyngor Dinas Casnewydd a bod yr ysgol yn dilyn y cyngor hwn.

O ran y trefniadau presennol, mae pob aelod o staff yr effeithiwyd arno wedi cael ei symud i swyddi amgen briodol o fewn amgylchedd yr ysgol gan fod y corff llywodraethu'n awyddus i ddefnyddio'r sgiliau gwerthfawr y gall y staff eu darparu. Fodd bynnag, nid yw'n briodol gwneud sylwadau ar y cyd-destunau unigol hyn mewn adroddiad cyhoeddus.

Argymhellion

Argymhellir y caiff y cynnig hwn ei symud ymlaen i'r cam dyfarnu terfynol. Fodd bynnag, gan fod gwrthwynebiad wedi ei dderbyn yn ystod y cam cynnig statudol, bydd angen i Gabinet y Cyngor sy'n gweithredu fel y Panel Dyfarnu Lleol, wneud y penderfyniad. Fodd bynnag, mae'r amserlen o gyfarfodydd y Cabinet, y cytunwyd arni yn fewnol, yn golygu na chaiff hwn ei atgyfeirio ar gyfer penderfyniad tan fis Ionawr 2018 a bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar y dyddiad gweithredu arfaethedig sef 1 Ionawr 2018. Gofynnir i'r Cabinet felly addasu'r cynnig gwreiddiol a chymeradwyo'r broses weithredu o 1 Ebrill 2018.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013), mae'r adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk

Er mwyn gofyn am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon, cysylltwch â Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Addysg Cyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu anfonwch e-bost i school.reorg@newport.gov.uk